Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Glantwymyn
# Canolfan Glantwymyn
# Glantwymyn
# Machynlleth
# Powys
# SY20 8LX

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2014**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 07/11/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Glantwymyn wedi ei leoli yn neuadd gymunedol y pentref. Pentref bach yw Glantwymyn tua 6 milltir o Fachynlleth yng nghanolbarth Cymru.

Agorodd y Cylch yn 1973, ac mae wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i ddarparu ar gyfer uchafswm o 16 o blant. Mae`r plant yn mynychu o`r oedran 2 flwydd oed ac yn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg yn y tymor ysgol sy`n dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Ar hyn o bryd, mae 9 plentyn tair oed yn mynychu gyda phob un yn cael eu hariannu. Mae yna hefyd 6 o blant rhwng 2-3 oed.

Mae hon yn gymuned wledig ac mae`r plant sy'n mynychu'r Cylch yn dod o nifer o bentrefi cyfagos. Cymraeg yw iaith gyntaf y mwyafrif o'r plant gyda lleiafrif o gartrefi lle siaredir Saesneg yn bennaf. Ar adeg yr arolygiad, doedd dim un plentyn wedi`i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol neu ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae 2 aelod o staff sydd â chymwysterau addas ac sy`n brofiadol mewn gweithio gyda phlant ifanc. Mae'r arweinydd yn ei swydd ers 2002.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn 2013. Cafodd ei arolygu ddiwethaf gan Estyn ym Medi 2008.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae pob plentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad, yn enwedig wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd;
- mae medrau`r rhan fwyaf o`r plant yn yr iaith Gymraeg yn ragorol;
- mae ymddygiad yn dda iawn ac mae gan y plant agweddau rhagorol tuag at ddysgu;
- ansawdd da y profiadau dysgu;
- mae`r addysgu`n dda ac mae cwestiynu yn cael ei ddefnyddio`n effeithiol i gefnogi ac ymestyn dysgu`r plant;
- ansawdd da iawn y berthynas rhwng y staff a`r plant;
- y trefniadau effeithiol sydd ar waith ar gyfer annog y plant i fod yn iach;
- bod y lleoliad yn gymuned gofalgar a chefnogol lle mae`r plant yn cael gofal a chefnogaeth dda.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella`r lleoliad yn dda oherwydd:

- mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad sydd wedi ei selio ar sicrhau`r ddarpariaeth orau posibl ar gyfer y plant;
- mae`r staff yn ymrwymedig i wella ansawdd y ddarpariaeth lle`n bosib;
- mae mentrau diweddar fel datblygu`r ddarpariaeth tu allan wedi gwella`r amgylchedd dysgu`n sylweddol;
- mae hanes da o weithredu newid;
- mae`r cyngor a`r arweiniad gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a`r Mudiad wedi bod yn effeithiol iawn;
- cefnogaeth gan y pwyllgor Rheoli.

## Argymhellion

A1 gwneud mwy o ddefnydd o ganlyniadau asesu wrth gynllunio`r cwricwlwm er mwyn darparu gweithgareddau sy`n cyfateb yn well i anghenion y plant ac er mwyn eu herio.

A2 rhoi mwy o bwyslais yn y cynllunio ar gyfer datblygu i arfarnu effaith newid ar safonau cyflawniad a chynnydd y plant.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r holl blant yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, yn enwedig wrth ddatblygu iaith. Mae'r plant hyn yn cofio dysgu blaenorol yn dda, fel wrth gofio storïau blaenorol a'r cymeriadau ynddynt. Erbyn bod y plant yn barod i symud i'r ysgol gynradd mae`u medrau llythrennedd a rhifedd yn uwch na'r disgwyliadau ar gyfer eu hoedran.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwrando'n dda ar storïau ac yn ymateb yn briodol. Mae`r holl blant yn mwynhau canu caneuon Cymraeg a hwiangerddi, yn enwedig caneuon actol gan eu perfformio gyda brwdfrydedd. Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn sgwrsio'n hyderus gyda'i gilydd ac mae nifer yn barod i siarad ag ymwelydd. Mae`r plant yn mwynhau edrych ar lyfrau. Maen nhw`n eu trin yn briodol, yn troi tudalennau yn rhesymegol ac yn dilyn y stori.

Mae`r rhan fwyaf o blant yn trafod offer ysgrifennu, fel pen felt, yn hyderus ac mae llawer yn deall bod gan ysgrifen bwrpas. Mae ychydig o blant yn adnabod eu henwau.

Mae pob plentyn yn hyderus wrth gyfrif yn gywir hyd at o leiaf 10. Mae gan y rhan fwyaf o blant eirfa fathemategol sy'n datblygu, fel wrth ddisgrifio siapiau. Mae llawer o blant yn adnabod ac enwi siapiau dau-ddimensiwn fel sgwariau a thrionglau ac yn adnabod ac yn enwi rhai siapiau tri-dimensiwn. Gall pob plentyn gyfateb patrymau a llawer yn adnabod rhif mewn ffurf ysgrifenedig.

Mae`r plant yn gyfarwydd ag offer digidol a theganau rhaglenadwy. Gyda rhywfaint o gymorth oedolion gall llawer o blant reoli tegan rhaglenadwy yn gywir. Mae`r plant yn defnyddio camera digidol yn hyderus ac yn defnyddio llygoden y cyfrifiadur i ddewis gwahanol eiconau ar y sgrin. Mae medrau meddwl a datrys problemau'r plant yn datblygu'n dda.

Mae medrau creadigol plant yn datblygu'n dda hefyd. Maen nhw`n cymysgu paent i greu eu delweddau a dilyn y curiad mewn cân gerddorol.

Mae gan y rhan fwyaf o blant fedrau rhagorol yn yr iaith Gymraeg. Mae'r plant yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol ac maen nhw`n sgwrsio'n rhugl gyda'i gilydd yn ystod chwarae. Yn ystod amser byrbryd, wrth chwarae rôl ac yn ddigymell, mae`r plant yn dangos geirfa eang a dealltwriaeth drylwyr o'r iaith Gymraeg. Mae lleiafrif o blant o gefndiroedd Saesneg eu hiaith yn deall mwy nag y gallant eu siarad ac mae eu gallu yn yr iaith Gymraeg yn datblygu'n dda.

**Lles: Da**

Mae pob plentyn yn mwynhau dod i'r lleoliad ac mae pob un yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Maen nhw`n gwybod beth yw trefn y lleoliad a'r hyn sy`n cael eu disgwyl ganddynt. Heb anogaeth, mae`r plant yn dewis gweithgareddau

ac yn symud ymlaen i weithio a chwarae yn annibynnol neu mewn grwpiau bach. Mewn nifer o achosion roedd y plant yn plant yn dewis llyfrau oedd yn darlunio`r straeon roedden nhw wedi`u clywed ac wedi dilyn y stori mewn lluniau. Roedden nhw`n medru canolbwyntio am gyfnodau estynedig o amser.

Mae pob plentyn yn dangos cymhelliant ac yn chwarae rhan lawn yn eu dysgu, yn enwedig mewn gweithgareddau dan gyfarwyddyd oedolion fel gwneud pîtsa unigol ar gyfer eu hamser byrbryd.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos agweddau da iawn tuag at ddysgu ac yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig o amser. Ar adegau priodol mae`r plant yn barod i helpu gyda`r tacluso gan drin adnoddau`n ofalus.

Mae pob plentyn yn ymddwyn yn dda iawn, maen nhw`n ystyriol o'i gilydd, maen nhw`n cymryd eu tro ac yn fodlon rhannu.

Mae amserau byrbryd yn achlysuron cymdeithasol gwerthfawr lle mae`r plant yn cymryd rhan weithredol. Maen nhw`n cymryd eu tro i osod y byrddau ac wrth weini gan sgwrsio'n dawel. Ar y cyfan, mae`r plant yn datblygu sgiliau cymdeithasol da iawn.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu gwerth chweil sydd o fudd i'r plant. Mae'r cynllunio'n fanwl a'r ddarpariaeth yn eang a chytbwys ar draws y chwe maes dysgu. Mae'r lleoliad yn mabwysiadu dull thematig ac mae medrau cyfathrebu a rhifedd yn cael eu hamlygu yn y cynllunio.

Mae`r plant yn dysgu adnabod eu henwau ac yn cael cyfleoedd rheolaidd i ganu ac i wrando ar storïau. Mae cyfrif yn rhan annatod o nifer o weithgareddau ac mae`r plant yn defnyddio'r cyfrifiadur yn rheolaidd. Mae gwahanol alluoedd y plant yn cael eu nodi yn y gwerthusiad o waith plant ond nid yw cyfleoedd gwerthfawr bob amser yn cael eu defnyddio er mwyn darparu gwaith sy`n cyfateb yn dda i oedran a gallu'r plant ac i ddarparu gweithgareddau sy'n eu herio.

Mae gan blant ddigon o gyfleoedd i wneud dewisiadau ac mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu cyfeirio gan oedolion a`u dewis gan y plentyn. Mae ffocws priodol ar ddysgu trwy chwarae a digon o gyfleoedd i blant fod yn annibynnol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau`r plant yn yr iaith Gymraeg yn ragorol. Drwy sgyrsiau anffurfiol a holi, mae`r ymarferywr yn llwyddo i ddatblygu ac ymestyn sgiliau iaith y plant. Mae'r holl blant yn cael eu trochi yn yr iaith ac mae`r plant o gartrefi Saesneg eu hiaith, er eu bod yn amharod i siarad yr iaith, yn meddu ar ddealltwriaeth resymol. Mae`r plant yn cael cyfleoedd i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Maen nhw`n dysgu am

ddiwylliannau a thraddodiadau eraill wrth siarad am y flwyddyn newydd Tsieineaidd, Diwrnod Annibyniaeth America a Divali.

Mae'r lleoliad yn defnyddio ymwelwyr yn dda i gyfoethogi dealltwriaeth y plant o'u cymuned.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr holl ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o'r plant ac mae'r rhain yn cael eu gwireddu i raddau helaeth iawn yn ymarferol. Mae'r berthynas yn dda iawn ac yn seiliedig ar gyd-barch a hoffter. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w hanghenion. Mae`r ymarferwyr yn darparu cefnogaeth dda ar gyfer pob plentyn ac mae hyn yn eu helpu i cyflawni'n dda a gwneud cynnydd cyson. Mae cyflymder bywiog i`r sesiynau addysgu ac mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o bryd i ymyrryd yn y gweithgareddau ar gyfer y plant. Mae`r plant yn cael digon o amser i weithio'n annibynnol, ond nid ydynt heb gefnogaeth os oes ei hangen arnynt.

Mae`r ymarferwyr yn fodelau iaith da iawn ac mae hyn yn effeithiol iawn wrth ddatblygu medrau iaith plant.

Mae'r lleoliad wedi datblygu proffiliau plentyn unigol sy'n cynnwys enghreifftiau anodedig o waith y plant. Mae'r rhain yn rhoi darlun clir o gynnydd a chyflawniad pob plentyn. Mae'r ymarferwyr yn asesu plant yn rheolaidd ac yn nodi eu cryfderau a'u gwendidau. Mae hyn yn arfer dda, ond nid yw`r canlyniadau yn cael eu defnyddio'n ddigonol wrth gynllunio'r cam nesaf yn addysg y plant er mwyn cyfateb gweithgareddau i oedran a gallu'r plant a`u herio'n ddigonol.

Mae rhieni yn cael gwybodaeth am gynnydd eu plant ond byddai adroddiad mwy rheolaidd yn eu galluogi i gymryd mwy o ran wrth gefnogi dysgu eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad yn effeithio`n llwyddiannus ar y safonau sy`n cael eu cyflawni ac ar les plant.

Mae`r profiadau dysgu yn effeithiol iawn wrth hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae`r plant yn dysgu i fod yn chwilfrydig am y byd maen nhw`n byw ynddo ac i werthfawrogi'r bobl sy'n eu helpu. Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn annog gwerthoedd moesol, fel gonestrwydd a chwarae teg ac i wahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir ac anghywir. Maen nhw`n dangos sgiliau cymdeithasol da, fel yn ystod amser byrbryd pan fyddant yn helpu ei gilydd. Mae`r dathliad o wyliau Cymreig a gwyliau mewn rhannau eraill o'r byd yn ymestyn eu dealltwriaeth o wahanol bobl.

Mae trefniadau effeithiol ar waith i annog plant i fwyta'n iach ac i gynnal lefel uchel o lanweithdra, fel golchi eu dwylo cyn bwyd a choginio.

Mae dealltwriaeth plant o gynaliadwyedd yn cael ei datblygu drwy ailgylchu a chompostio bwyd sydd heb ei fwyta.

Mae gan y lleoliad drefniadau priodol ar waith i hybu a diogelu lles plant.  Mae drws allanol sydd ar glo yn arwain at ystafell ddysgu sydd wedi`i hadnewyddu`n ddiweddar.  Ni all unrhyw un fynd i mewn neu adael yn ddirybudd.  Mae'r ardal chwarae gyfagos yn amgylchedd diogel ar gyfer y plant.  Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid yw`n rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae systemau priodol yn eu lle i nodi a chefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.  Nid oes un o'r plant presennol wedi cael eu hadnabod fel rhai ag anghenion o'r fath.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r lleoliad yn darparu ethos sy'n gwbl gynhwysol ac yn gymuned ofalgar a chefnogol.  Mae`r plant yn cael eu parchu yn dda ac yn cael eu trin yn deg ac maen nhw, yn eu tro yn adnabod, parchu a dathlu amrywiaeth trwy ddathliadau o wyliau.

Mae gan y lleoliad staff profiadol gyda chymwysterau sy'n deall athroniaeth y Cyfnod Sylfaen.  Mae cyflenwad digonol o adnoddau o ansawdd da sy'n hygyrch i'r plant.  Mae'r ystafell a adnewyddwyd yn ddiweddar yn amgylchedd dysgu deniadol sydd wedi`i threfnu'n dda ac yn darparu'r plant â mynediad at y chwe maes dysgu.  Mae'r ardal tu allan ar bwys y brif ystafell, ac yn caniatáu mynediad rhydd i blant pan fydd y tywydd yn caniatáu.

Mae`r arddangosfeydd, gan gynnwys arddangosfeydd o waith plant, yn gwella'r amgylchedd dysgu ac mae'r gofod yn cael ei ddefnyddio'n dda ar y cyfan.  Mae'r lleoliad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Mae pobl leol, fel nyrs yr ardal a`r staff parafeddygol yn galluogi`r plant i ddysgu am bobl sy'n gweithio yn y gymuned i'w helpu.

| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae`r lleoliad yn cael ei arwain a'i reoli'n dda.  Mae gan yr arweinydd ddisgwyliadau uchel o'i hunan a`r cynorthwywyr.  Mae hi wedi ymrwymo i ddarparu`r ddarpariaeth a'r profiadau gorau posibl i'r plant.  Mae`r ymarferwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn ystod rhan o'r arolygiad wedi cael eu helpu gan fyfyriwr ar leoliad.

Mae'r lleoliad yn dangos synnwyr cryf o ddiben ac mae`r staff yn gwneud defnydd da o fentrau a gyflwynwyd mewn cyrsiau hyfforddi yr Awdurdod Lleol.  Mae ymweliadau â lleoliadau eraill hefyd yn fuddiol.  Mae'r staff yn awyddus i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ac yn awyddus i weithredu newid.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn, gan rannu syniadau, cynllunio`r gwaith gyda`i gilydd a chwilio am ffyrdd o wella'r ddarpariaeth.  Mae llawer iawn wedi ei gyflawni dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan gynnwys y gwaith

adnewyddu cyflawn o'r ardal addysgu, datblygu'r ardal chwarae tu allan a chynnwys adnoddau addysgu, fel yr ardal wrando a chyfleusterau cyfrifiadurol. Mae'r cyfleusterau ychwanegol hyn yn cael effaith fuddiol ar safonau a lles plant.

Mae'r lleoliad yn ceisio barn pawb sydd â diddordeb, gan gynnwys y plant, y rhieni, y pwyllgor rheoli ac asiantaethau allanol i werthuso ei gryfderau a meysydd ar gyfer gwella.

Mae'r lleoliad yn cyflwyno'r datblygiadau arfaethedig yn systematig ac yn ffurfiol gan ymgorffori pob agwedd ar waith y lleoliad. Mae`r costau a`r personél dan sylw yn cael eu cynnwys. Fodd bynnag, nid oes digon o bwyslais ar werthuso effaith y newidiadau sydd wedi`u gwneud ar safonau cyflawniad a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r trefniadau partneriaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol a gwerthfawr i addysg y plant.

Mae'r rhieni yn gefnogol iawn o'r lleoliad ac yn gwerthfawrogi'r gofal a`r pryder sy`n cael eu dangos gan ymarferwyr. Mae`r plant yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu fel unigolion ac yn cael pob ystyriaeth gan oedolion. Mae`r ymarferwyr eu hunain yn falch o'r cynnydd mae`r plant yn ei wneud ac mae hyn yn cael ei gyfleu i'r plant sy'n ymateb yn gadarnhaol. Mae rhieni yn cael gwybod am gynnydd eu plant ac yn eu hannog i chwarae rhan weithredol yn addysg eu plentyn.

Mae cysylltiadau buddiol iawn gyda'r ysgol gynradd leol ac mae hyn yn hwyluso trosglwyddiad y plant. Mae`r plant yn ymweld â'r dosbarth derbyn yn rheolaidd yn yr hanner tymor cyn eu trosglwyddo am awr bob sesiwn. Mae'r plant hefyd yn ymweld â pherfformiadau, fel y cyngherddau Nadolig yn yr ysgol ac hefyd yn defnyddio rhai o'r cyfleusterau.

Mae'r pwyllgor rheoli yn weithgar iawn yn eu cefnogaeth o`r lleoliad. Mae'r pwyllgor yn wybodus iawn am y lleoliad, gan gynnwys safonau a lles y plant.

Mae'r lleoliad yn manteisio`n sylweddol o gefnogaeth athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog cefnogi`r Mudiad.

Mae`r partneriaethau cymunedol fel ymweliadau gan staff parafeddygol, staff ambiwlans a nyrs yr ardal yn darparu profiadau gwerthfawr i'r plant gan ddatblygu eu dealltwriaeth o bobl sydd yn eu helpu yn y gymuned.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae digon o staff profiadol a chymwys ac mae gan y lleoliad adnoddau da i gefnogi dysgu`r plant. Mae`r ymarferwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn cefnogi ei gilydd. Mae eu harbenigedd unigol yn cael defnydd da wrth gynllunio`r cwricwlwm fel bod sgiliau unigol yn cael y defnydd gorau.

Mae`r ymarferwyr wedi cael hyfforddiant addas yn unol â`u hanghenion sy'n cefnogi eu datblygiad proffesiynol.

Mae`r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'u hyfforddiant, cyngor gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog cefnogi`r Mudiad i wella addysgu a phrofiadau dysgu ar gyfer y plant.  Mae ymweliadau â lleoliadau eraill hefyd yn profi`n fuddiol.

Mae gwariant yn cael ei fonitro'n ofalus ac mae'r lleoliad wedi elwa'n sylweddol o'r arian sydd wedi`i godi gan ymdrech y pwyllgor rheoli.

O ystyried y safonau uchel sy`n cael eu cyflwyno gan y plant, bernir bod y lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |